

## LLOYD, DAVID (1752 - 1838) clerigwr, bardd, a cherddor

**Enw:** David Lloyd  
**Dyddiad geni:** 1752  
**Dyddiad marw:** 1838  
**Rhiant:** Mary Lloyd (née James)  
**Rhiant:** Thomas Lloyd  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** clerigwr, bardd, a cherddor  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Peirianeg, Adeiladu, Pensaerniaeth Forwrol ac Arolygu Tir; Cerddoriaeth; Barddoniaeth  
**Awdur:** John James Jones

Ganwyd 12 Mai 1752, yng Nghroes Cynon, Llanbister, sir Faesyfed, unig fab Thomas Lloyd, Trevodich, a Mary, merch David James, Croes Cynon Fach. Gweithiodd am beth amser ar dyddyn ei dad, a didrefn fu ei ddyddiau ysgol. Eto llwyddodd i ennill gwybodaeth o'r Lladin ac o fathemateg, a dysgodd Roeg ar ei ben ei hun. Yn y flwyddyn 1771 agorodd ysgol fechan yn Llanbister. Yno ymbaratodd ar gyfer urddau eglwysig. Bu'n guraad Putley, sir Henffordd, o 1785 hyd 1789, pan wnaethpwyd ef yn ficer Llanbister. Yno y bu hyd ei farw 3 Mawrth 1838. Yn y flwyddyn 1792 cyhoeddodd *The Voyage of Life*, sef cân yn null Edward Young. Ymddangosodd argraffiad newydd helaethach yn y flwyddyn 1812 o dan y teitl *Characteristics of Men, Manners, and Sentiments, or The Voyage of Life*, ac yn gyflwynedig i'r **esgob Burgess**. Cyhoeddodd hefyd waith o'r enw *Horae Theologicae* (Llundain, 1823), ac ymdeithgan o'r enw 'The Loyal Cambrian Volunteers,' yr unig un a gyhoeddwyd o'i amryw weithiau cerddorol. Yn ychwanegol at hyn yr oedd Lloyd yn beiriannydd medrus, a dywedir iddo ddyfeisio 'peiriannau o symudiad parhaol' ('perpetual motion engines').

### Awdur

**John James Jones**, (1892 - 1957)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852)

Jonathan Williams ac Edwin Davies, *A General History of the County of Radnor* (Brycheiniog 1905), 1905

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 54020589

Wikidata: Q18670989

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Jones, J. J., (1953). LLOYD, DAVID (1752 - 1838) clerigwr, bardd, a cherddor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LLOY-DAV-1752>

Trannu

Preifatrwydd a Chwci  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government